

Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol

Ar waith:
Canllawiau ar gynnal
ffiniau rhyw clir

Diwygiwyd
Mai 2017

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod wedi ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydych wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2017.

Cynnwys

| | |
|--|-----------|
| Ynghylch y canllawiau hyn | 4 |
| Canllawiau ar gynnal ffiniau rhyw clir | 6 |
| 1. Pwysigrwydd cynnal ffiniau rhyw clir | 6 |
| 2. Anghydbwysedd pŵer | 6 |
| 3. Ymddygiad rhywiol a thorri ffiniau rhyw | 7 |
| 4. Osgoi torri ffiniau rhyw | 8 |
| 5. Gwahaniaethau diwylliannol ac eraill | 9 |
| 6. Tywyswyr | 9 |
| 7. Pobl sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol | 10 |
| 8. Mynegi pryderon | 10 |
| Ffynonellau gwybodaeth eraill..... | 11 |

Ynghylch y canllawiau hyn

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Yn rhan o'n swyddogaeth, rydym yn gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd gydol eu gyrfa.

Mae'r canllawiau hyn yn egluro pwysigrwydd cynnal ffiniau rhyw clir i weithwyr fferyllol proffesiynol (fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol), a'u cyfrifoldebau fel gweithwyr proffesiynol. Dylent ddefnyddio'u crebwyll proffesiynol wrth gymhwyso'r canllawiau hyn at eu gwaith.

Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol fod yn sicr bod pob aelod o'u tîm yn ymwybodol o'r canllawiau hyn a'u bod wedi eu hyfforddi ymhob maes sy'n berthnasol i'w dyletswyddau.

Os yw gweithiwr fferyllol proffesiynol yn ansicr ynghylch yr hyn y dylai ei wneud mewn unrhyw sefyllfa benodol, dylai wastad ofyn am gyngor gan ei gyflogwr, darparwr yswiriant indemniad, undeb, corff proffesiynol neu sefydliad fferyllol arall, neu gael cyngor cyfreithiol annibynnol.

Dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â'r **safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol** y mae'n rhaid i bob gweithiwr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd. Mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at safon 6 y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, sy'n dweud:



Rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol ymddwyn mewn ffordd broffesiynol

Gweithredu'r safon

Mae pobl yn disgwyl i weithwyr fferyllol proffesiynol ymddwyn yn broffesiynol. Mae hyn yn hollbwysig i'r ymdrech o gynnal ffydd mewn fferylliaeth. Nid yw ymddygiad proffesiynol yn gyfyngedig i'r diwrnod gwaith yn unig, nac i ryngweithio wyneb yn wyneb yn unig. Mae bod yn fferylllydd neu'n dechnegydd proffesiynol yn fraint ac mae hynny'n golygu bod ymddwyn yn briodol ar bob adeg yn angenrheidiol. Mae hefyd yn ffactor bwysig wrth gynnal ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth. Mae nifer o ffyrdd o gyrraedd y safon hon. Mae enghreifftiau o'r agwedd a'r ymddygiad yr ydym yn eu disgwyl isod.

Mae pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol pan fo gweithwyr fferyllol proffesiynol yn:

- foesgar ac yn ystyriol
- pobl y gellir ymddiried ynddynt ac sy'n ymddwyn yn onest a chydag integriti
- cydymdeimladol ac yn dosturiol
- trin pobl gyda pharch ac yn diogelu eu hurddas
- cynnal ffiniau personol a phroffesiynol priodol gyda'r bobl y maen nhw'n darparu gofal ar eu cyfer ac eraill

Mae gennym **ystod o ganllawiau** ar ein gwefan i helpu gweithwyr fferyllol proffesiynol gyrraedd ein safonau.

Canllawiau ar gynnal ffiniau rhyw clir

1. Pwysigrwydd cynnal ffiniau rhyw clir

- 1.1. Pan fo gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn croesi ffiniau personol a phroffesiynol gall y canlyniadau ar gyfer pobl sydd yn eu gofal fod yn rhai difrifol a gallant achosi niwed. Gall croesi'r ffiniau hyn niweidio ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth a phroffesiynau gofal iechyd eraill.
- 1.2. Rhaid i bobl sy'n derbyn gofal fod yn hyderus bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn ymddwyn er eu budd. Os yw gweithiwr fferyllol ynghlwm, mewn ffordd rywiol neu amhriodol, gyda pherson dan ei ofal gellir effeithio ar ei grebwyll proffesiynol. Gallai perthynas o'r fath effeithio ar y penderfyniadau a wna ynghylch gofal iechyd person.

2. Anghydbwysedd pŵer

- 2.1 Mae pobl sy'n derbyn gofal mewn sefyllfa fregus. Yn y berthynas rhwng gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a pherson dan ei ofal, mae anghydbwysedd pŵer rhyngddynt yn aml. Gall hyn fod oherwydd bod gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu gyda'r gweithiwr fferyllol neu am fod gan y gweithiwr wybodaeth ac adnoddau sydd ar y person sy'n derbyn gofal eu hangen (megis meddyginiaethau). Efallai na fydd y person sy'n derbyn gofal yn gwybod beth sy'n ymddygiad proffesiynol priodol. Efallai na fydd yn gallu barnu a yw'r berthynas, neu'r hyn sy'n digwydd iddo, yn briodol. Cyfrifoldeb y gweithiwr fferyllol proffesiynol yw bod yn ymwybodol o'r anghydbwysedd pŵer a chynnal ffiniau personol a phroffesiynol clir ar bob adeg.
- 2.2 Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol wastad fod yn glir gyda'r person sy'n derbyn gofal ynghylch y rheswm dros archwilio'r corff neu pam eu bod yn gofyn i glaf ddod i ystafell ymgynghori. Dylai'r person sy'n derbyn gofal gael cyfle i ofyn cwestiynau, a dylai roi ei gydsyniad cyn i weithiwr fferyllol proffesiynol fynd i ystafell ymgynghori gydag e.



3. Ymddygiad rhywiol a thorri ffiniau rhyw

- 3.1 Mae gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (ASP) ei ganllawiau ei hun ar y cyfrifoldebau sydd gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol ynghylch cadw ffiniau rhyw clir rhwng gweithwyr a chleifion. Mae'r ASP yn diffinio ymddygiad rhywiol fel 'gweithredoedd, geiriau neu ymddygiad sydd â'r bwriad o gyffroi neu foddhau cyneddfau neu ddymuniadau rhywiol'.
- 3.2 Nid gweithredoedd troseddol, megis trais neu ymosodiadau rhywiol yw'r unig bethau sy'n torri ar ffiniau rhyw. Byddai cynnal archwiliad corfforol heb angen neu ofyn am fanylion ynghylch cyfeiriadedd rhywiol pan nad yw hynny'n berthnasol neu'n angenrheidiol ill dau yn enghreifftiau o ffiniau rhyw yn cael eu torri.

4. Osgoi torri ffiniau rhyw

4.1 Mae nifer o fathau o ymddygiad a allai fod yn arwyddion o ymddygiad rhywiol tuag at bobl sy'n derbyn gofal neu at ofalwyr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pan fo'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn datgelu manylion personol amdano'i hun i berson sydd dan ei ofal yn ystod ymgynghoriad
- Pan fo'r rheswm y tu ôl i'r gweithredoedd canlynol gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol yn rhai rhywiol:
 - rhoi neu dderbyn gwahoddiadau cymdeithasol (cyfarfodydd neu ddêts)
 - ymweld â chartref person sydd dan ei ofal
 - cwrdd â phobl dan ei ofal y tu allan i arferion arferol gwaith, er enghraifft trefnu apwyntiadau pan nad oes staff eraill yn y fferyllfa, neu
 - ofyn cwestiynau nad ydyn nhw'n gysylltiedig ag iechyd person.

4.2 Os bydd gweithiwr fferyllol proffesiynol yn sylweddoli ei fod wedi ei atynnu at berson dan ei ofal, rhaid iddo beidio â gweithredu ar y teimladau hyn. Os ydyw'n pryderu y gallai hyn effeithio ar ei grebwyll proffesiynol, neu os yw'n ansicr a ydyw'n cam-fanteisio ar ei safle, efallai y byddai'n werth chweil trafod y mater gyda rhywun arall.

Gallai drafod y mater gyda chydweithiwr diduedd, sefydliad fferyllol sy'n ei gynrychioli, corff arwain proffesiynol neu ei ddarparwr yswiriant indemniad proffesiynol.

4.3 Os na all gweithiwr fferyllol proffesiynol barhau i ofalu am y person a bod yn wrthrychol, dylai ddod o hyd i ofal arall ar gyfer y person. Rhaid iddo sicrhau bod yr achos yn cael ei drosglwyddo'n briodol i weithiwr fferyllol proffesiynol arall ac nad yw'r person sy'n derbyn gofal yn teimlo mai ef sydd ar fai yn sgil y gweithredoedd hyn.

4.4 Efallai y bydd achosion lle bydd pobl sy'n derbyn gofal neu eu gofalwyr yn teimlo atyniad at weithiwr proffesiynol. Os yw person sy'n derbyn gofal yn arddangos ymddygiad rhywiol tuag at weithiwr proffesiynol, dylai'r gweithiwr ystyried a ddylai drafod teimladau'r person mewn ffordd gadarnhaol a cheisio ailsefydlu perthynas broffesiynol. Os nad yw hyn yn bosibl, dylai drosglwyddo gofal am y person i weithiwr fferyllol proffesiynol arall. Efallai y byddai'n ddefnyddiol trafod y mater gyda chydweithiwr, sefydliad proffesiynol sy'n ei gynrychioli, corff arwain proffesiynol neu ei ddarparwr yswiriant indemniad proffesiynol.



5. Gwahaniaethau diwylliannol ac eraill

- 5.1 Gall gwahaniaethau diwylliannol effeithio ar y ffordd y mae unigolyn yn ystyried ffiniau rhyw a'r hyn sy'n briodol. Mae angen i weithwyr fferyllol proffesiynol fod yn sensitif i hyn, a thrin pobl sy'n derbyn gofal fel unigolion, mewn ffordd sy'n parchu eu barn a chynnal eu hurddas. Efallai y bydd yn well gan berson siarad â neu gael ei archwilio gan rywun o'r un rhyw, neu gael person arall yn bresennol (gweler 6 Tywyswyr).

6. Tywyswyr

- 6.1 Person (o'r un rhyw â'r claf fel arfer) sydd yn bresennol i ddiogelu'r person sy'n derbyn gofal gan weithiwr gofal proffesiynol. Mae tywyswyr hefyd yn tystio i gydsyniad y person i'r hyn sy'n digwydd. Gall swyddogaethau tywyswyr amrywio yn ôl anghenion y person, y gweithiwr fferyllol a'r archwiliad neu'r driniaeth sy'n digwydd.
- 6.2 Dylai'r gweithiwr fferyllol ofyn i'r person sy'n derbyn gofal a hoffai gael tywysydd yn bresennol yn yr ystafell ymgynghori, neu ar gyfer unrhyw archwiliad corfforol a allai fod yn sensitif. Dylai'r gweithiwr fferyllol drafod yr angen am dywysydd gyda'r person sy'n derbyn gofal ac ni ddylai ddyfalu'r hyn y byddai'n ei ddymuno.
- 6.3 Dylai gweithwyr fferyllol proffesiynol gofnodi unrhyw drafodaeth a gânt gyda'r person ynghylch tywyswyr, yn cynnwys ynghylch a ydyw am gael tywysydd yn bresennol.
- 6.4 Os nad oes tywysydd ar gael, dylai'r gweithiwr fferyllol gynnig aildrefnu'r ymgynghoriad neu archwiliad tan i dywysydd fod ar gael (oni bai y byddai oedi yn golygu na fyddai gofal y person yn cael y flaenoriaeth bennaf).

7. Pobl sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol

- 7.1 Yr un egwyddorion sydd ar waith ar gyfer gofalwyr neu bobl sydd wedi derbyn gofal gan weithwyr fferyllol proffesiynol yn y gorffennol. Mae'n bosibl y bu anghydbwysedd pŵer yn y berthynas broffesiynol ddiwethaf, a byddai hyn felly yn effeithio ar unrhyw berthynas bersonol. Os bydd y math hwn o berthynas yn datblygu, dylid ystyried yr hyn a allai ddigwydd ac unrhyw niwed y gallai hyn ei achosi i'r person. Dylid hefyd ystyried yr effaith ar enw da proffesiynol y gweithiwr fferyllol. Rydym yn argymhell y dylai gweithiwr fferyllol proffesiynol ystyried y canlynol:
- pa mor hir y parodd y berthynas broffesiynol a phryd y daeth i ben
 - natur y berthynas broffesiynol flaenorol ac a oedd anghydbwysedd pŵer mawr ynddi
 - a oedd, neu a yw, y person dan ei ofal yn agored i niwed
 - a ydy'r wybodaeth neu'r dylanwad a ddaeth drwy'r berthynas broffesiynol yn cael ei ddefnyddio i barhau â'r berthynas bersonol, ac
 - a yw eisoes yn trin, neu'n debygol o drin, aelodau o deulu'r person fu gynt dan ei ofal neu deulu'r gofalwr.
- 7.2 Cyfrifoldeb y gweithiwr fferyllol proffesiynol yw ymddwyn yn briodol ac yn broffesiynol, hyd yn oed os yw'r berthynas y mae pawb sydd ynghlwm wrthi wedi cytuno arni. Rhaid iddo ystyried pob un o'r materion uchod a chwilio am gyngor priodol os bydd angen.

8. Mynegi pryderon

- 8.1 Mae gan weithwyr fferyllol proffesiynol ddyletswydd broffesiynol i fynegi pryderon os credant fod gweithredoedd unigolion eraill yn creu risg i gleifion. Byddai hyn yn cynnwys pryder am dorri ffiniau rhyw priodol gan gydweithwyr neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Rhaid iddynt hefyd weithredu'n briodol pan fo eraill yn mynegi pryderon wrthyn nhw.
- 8.2 Mae rhagor o wybodaeth yn ein dogfen **Ar waith: Canllawiau ar fynegi pryderon.**

Ffynonellau gwybodaeth eraill

- Clear sexual boundaries between healthcare professionals and patients: responsibilities of healthcare professionals, ASP:
www.professionalstandards.org.uk
- Chaperone Framework, PSNC:
www.psn.org.uk

Os oes gennych gwestiynau am, neu sylwadau ar, gynnwys y canllawiau hyn, cysylltwch â'n Tîm Polisi a Safonau:

**Tîm Polisi a Safonau
Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square
Llundain
E14 5LQ**

0203 713 8000

standards@pharmacyregulation.org

Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar bynciau eraill a allai fod o ddefnydd i chi:

**[www.pharmacyregulation.org/
standards/guidance](http://www.pharmacyregulation.org/standards/guidance)**



Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, Llundain E14 5LQ
F 020 3713 8000
E info@pharmacyregulation.org

 @TheGPhC
 TheGPhC
 /company/general-pharmaceutical-council
www.pharmacyregulation.org